Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

BA 1, Darlith 4
25/01/2022

a.karadog@pcydds.ac.uk
a.karadog@uwtsd.ac.uk

Darlith 4
Mwy o ferfau: yr Amhersonol a'r Gorchmynnol

Heddiw, byddwn ni'n...

- Dysgu sut i ddefnyddio'r amhersonol yn gywir
- Dysgu am ferfau gorchmynnol a pham eu bod yn bwysig
- Ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'r gorchmynnol
- Cyfle i chi weithio mewn grwpiau yn y sianeli....efallai...os allaf i ddeall sut mae Teams yn gweithio!!


Adolygu

Gwrthrych a Goddrych

https://quizlet.com/203331706/gramadeg-gwrthrych-neu-goddrych-flash-cards/

Beth yw person?

?



wel, ie, ond hefyd ...

Yr Amhersonol





Gall yr holl bethau yma fod yn ‘**berson**’ y ferf hefyd. Edrychwch…





Wrth drafod BERFAU, rydym yn defnyddio'r term 'person' i gyfeirio at UNRHYW BETH sy'n GWNEUD y FERF

Mae'r fuwch yn cnoi cil ...
Felly 'person' y ferf yw'r...



Diferodd y tap drwy'r nos ...

Felly 'person' y ferf yw'r...



Dywed y llyfrau hanes yr holl ganrifoedd ...
Felly 'person' y ferf yw'r...



Gall y cyfrifiadur roi llawer o wybodaeth i ni ...

Felly 'person' y ferf yw'r...




Fel**ly**'r **AMHERSONOL**

Yw PAN NAD OES modd dweud yn union pwy/beth yw'r person!

('ONE')

It is said
It is written



Yr Amhersonol

- **-ir y presennol**

e.e *Dywedir*
Gwelir
Ysgrifennir

- **-id yr amherffaith a'r amhenodol**

e.e. *Edrychid*

- **-wyd y gorffennol**

e.e. *Dywedwyd,*
Gwelwyd,
Ysgrifennwyd

- **-er y gorchmynnol**

e.e. *Sylwer*
Gweler

****DIM TREIGLO****

Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e.

Cyhoeddwyd **dyddiad** y cyfarfod nesaf.

Cynhaliwyd **cyfarfod** ar ddiwedd y dydd.

Marciwyd **gwaith** y plant.

Dysgwyd **gwersi** yn dilyn yr arsylwad.

Gwneir **gweithgareddau** allgyrsiol yn rheolaidd.

****NEGYDDOL****
Rydym yn gosod **ni** o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal.

P T C yn treiglo'n llaes
B D G Ll M Rh yn treiglo'n feddal

Ni **l**wyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd.

Ni **ch**yhoeddir y llyfr tan ddiwedd y flwyddyn.

ENGHREIFFTIAU

Dywedir bod Gethin yn athro gwych.

Yn y llyfr, disgrifir bywyd person ifanc.

Agorwyd y cyfarfod i bawb.

Ailgodwyd yr adeilad ym 1999.

Sylwer ar yr arwyddion.

Ni ddylier ysmygu yn yr ystafell hon.

Parcio hwnna



Cam yn ôl

Pam fod pobl yn drysu?

1) Y busnes ‘person’
2) Y terfyniad ‘ir’.
3) NODER mae IR yn wahanol i ‘a’r’

Awgryma’r ymchwilydd
Ysgrifenna’r awdur
Cerdda’r fam

Awgrymir
Ysgrifennir
Cerddir i’r ysgol

Beth os ydych chi eisiau dangos **PWY/BETH** wnaeth y ferf wedi'r cyfan…

Wrth ddefnyddio'r **AMHERSONOL** – *sy'n hyfryd o ran arddull gwrthrychol ar gyfer aseiniadau etc*

Gallwch chi gyflwyno PWY/BETH drwy ddefnyddio **GAN**

- Rhedwyd ras **gan** y ferch.
- Ysgrifennwyd y gerdd **gan** y bardd.
- Ysgrifennwyd yr adroddiad **gan** yr athrawes
- Agorwyd y cyfarfod **gan** y prifathro

Tasg mewn grwpiau

Ewch i'r sianeli i weithio ar 3 tasg ar yr Amhersonol + tasg drafod.

Trafodwch. Helpwch eich gilydd.

Os nad oes rhywun yn deall, ceisiwch esbonio!

15 munud.

Gwaith grŵp yn y sianeli

TASG 1: defnyddiwch yr amhersonol yn y brawddegau canlynol.

Mae'r llyfr wedi cael ei ysgrifennu yn Saesneg.
Mae car yn cael ei weld.
Nid yw ysymygu yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol
Cafodd yr ysgol ei chodi yn 1989
Cafodd dwy gôl eu sgorio
Mae'r gwersi yn cael eu dysgu yn Gymraeg

Tasg 2: Pa 3 brawddeg sy'n gywir?

- Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
- Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
- Dywed y bardd fod y byd ar ben.
- Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Esbonia'r llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.

Tasg 3: Cywirwch

Penderfynwyd y dosbarth eu bod am wneud arddangosfa.
I orffen y thema cafwyd weithdy.
Cafwyd gyflwyniad clir.
Cyflwynwyd Iestyn waith da.
Cyfrannir Mared at drafodaethau yn gyson.
Welir bod cynnydd mawr yn y gwaith.
Weler bod Iestyn wedi gwella.

Os ydych yn gorffen yn brydlon, meddyliwch am enghreifftiau addas o frawddegau yn cynnwys berfau amhersonol y gallech chi eu cynnwys mewn traethawd academaidd.

Adborth

Oes cwestiwn penodol wedi codi yn ystod y gwaith grŵp?

YMARFER: defnyddiwch yr amhersonol yn y brawddegau canlynol.

Mae'r llyfr wedi cael ei ysgrifennu yn Saesneg.

Mae car yn cael ei weld.

Nid yw ysymygu yn cael ei ganiatáu yn yr ysgol

Cafodd yr ysgol ei chodi yn 1989

Cafodd dwy gôl eu sgorio

Mae'r gwersi yn cael eu dysgu yn Gymraeg

Tasg: BERFAU AMHERSONOL.
Pa 3 brawddeg sy'n gywir?

- Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
- Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
- Dywed y bardd fod y byd ar ben.
- Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Esbonia'r llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.

Tasg: BERFAU AMHERSONOL.
Pa 3 brawddeg sy'n gywir?

- Defnyddir yr awdur nifer o esiamplau.
- Dangosir yr ymchwil sawl ffaith ddiddorol
- Dywed y bardd fod y byd ar ben.
- Esbonir y llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Esbonia'r llyfr beth yw pwysigrwydd ail-gylchu.
- Yn y traethawd trafodir pwysigrwydd ieithoedd lleiafrifol.

Cywirwch:

Penderfynwyd y dosbarth eu bod am wneud arddangosfa

I orffen y thema cafwyd weithdy.

Cafwyd gyflwyniad clir.

Cyflwynwyd Iestyn waith da.

Cyfrannir Mared at drafodaethau yn gyson.

Welir bod cynnydd mawr yn y gwaith.

Weler bod Iestyn wedi gwella.

Newidwch y berfenwau hyn yn ferfau amhersonol yn y gorffennol:

cael

rhoi

agor

penderfynu

cyhoeddi

mynd

Newidwch y berfenwau hyn yn ferfau amhersonol yn y gorffennol:

Cael - cafwyd

rhoi - rhoddwyd


agor - agorwyd

penderfynu - penderfynwyd

cyhoeddi - cyhoeddwyd

mynd - aethpwyd

Cywir neu Anghywir?



Cywirwch y brawddegau canlynol:

Taflwyd bysgodyn yn ôl i'r afon am ei fod yn rhy fychan.

Prynwyd dŷ am chwarter miliwn o bunnau.

Cafwyd Daniel hyd i olion Rhufeinig wrth iddo adeiladu'r archfarchnad.

Sgoriwyd Cari y gôl a enillodd y gêm yn yr eiliad olaf un.

Gwelwyd gynnydd mawr yn y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Cywirwch y brawddegau canlynol:

Taflwyd pysgodyn yn ôl i'r afon am ei fod yn rhy fychan.

Prynwyd tŷ am chwarter miliwn o bunnau.

Cafodd Daniel hyd i olion Rhufeinig wrth iddo adeiladu'r archfarchnad.

Sgoriodd Cari y gôl a enillodd y gêm yn yr eiliad olaf un.

Gwelwyd cynnydd mawr yn y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Egwyl

Gorchmynion

Beth ydy gorchmynion?

Pryd byddwn ni'n eu defnyddio nhw?

Beth sy'n rhaid i ni gofio?

Gorchmynion cadarnhaol

Rydyn ni'n defnyddio'r gorchmynion unigol i siarad ag un plentyn a'r rhai lluosog pan rydyn ni'n siarad â grŵp.

Mae'r unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **-a** ar ddiwedd bonyn y ferf,

e.e. *Rheda! Cerdda!*

Fel arfer, mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **-wch** ar ddiwedd bonyn y ferf,
e.e. *Rhedwch! Sgipiwch!*

Gorchmynion

Rheda'n gyflym.	Rhedwch yn gyflym.
Gwranda'n ofalus.	Gwrandewch yn ofalus.
Gwisga dy got.	Gwisgwch eich cotiau.
Sa'n llonydd. / Sefa'n llonydd.	Sefwch yn llonydd.

Mynd a dod

Dere i weithio ar y cyfrifiadur.	Dewch i weithio ar y cyfrifiadur.
Cer allan i'r iard/buarth.	Ewch allan i'r iard/buarth.
Cer i nôl dy fag.	Ewch i nôl eich bagiau.
	Gwnewch res.

PAID!

Gorchmynion negyddol

- Mae'r gorchymyn unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **Paid â** o flaen y ferf ac mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **Peidiwch â** o flaen y ferf. Mae hyn yn achosi treiglad llaes, e.e.

Paid â cherdded! **Peidiwch â ph**oeni!

- Dydyn ni ddim yn defnyddio'r treiglad hwn bob tro ar lafar.
- Os oes llafariad yn dilyn 'â', byddwn yn defnyddio 'ag' yn lle. e.e

Paid ag agor y ffenest!

Peidiwch ag anghofio eich llyfrau!

PAID / PEIDIWCH

Paid â **ch**weryla.	Peidiwch â **ch**weryla.
Paid â bod yn ddigywilydd.	Peidiwch â bod yn ddigywilydd.
Paid â **ch**erdded yn y mwd.	Peidiwch â **ch**erdded yn y mwd.
Paid â **m**eiddio.	Peidiwch â **m**eiddio.

Tasg

- Llenwch y bylchau gyda'r ateb cywir

Y Gorchmynnol

Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod. Os yw'r frawddeg yn cyfeirio at un person, defnyddiwch ffurfiau'r 2il berson unigol (*ti*), ac os yw'n cyfeirio at fwy nag un person, defnyddiwch ffurfiau'r 2il berson lluosog *(chi)*.

1. ..... gyfle i Siân ateb, Gareth. (*rhoi*)
2. ..... eich dwylo cyn rhoi'r ateb. (*codi*)
3. ..... yn ofalus gyda'r siswrn yna, Catrin. (*bod*)
4. ..... yn fanwl ar y llun yma, bawb. (*edrych*)
5. ..... yn astud ar y stori hon, bob un ohonoch chi. (*gwrando*)
6. ..... fod yn fwy gofalus wrth liwio, Helen. (*ceisio*)
7. ..... mewn llinell tan i Mr Jones ddod atoch. (*aros*)
8. ..... i'r prifathro ble mae'r allweddi, Huw. (*gofyn*)
9. ..... yn llonydd am eiliad, wnei di? *(sefyll)*
10. ..... y blodau gan sylwi ar y lliw glas hyfryd, dyna blant da. (*peintio/paentio*)
11. ..... â rhedeg o'r dosbarth, Gareth. (*peidio*)
12. ..... baragraff yn disgrifio'r olygfa. (*ysgrifennu*)
13. ..... Terwyn o'r neuadd, fechgyn. (*dilyn*)
14. ..... eich gwyliau, bawb. (*mwynhau*)
15. ..... y byrddau ar ôl peintio, ferched. (*glanhau*)
16. ..... yn dawel, bob un, neu chaiff neb fynd allan i chwarae. (*bod*)
17. ..... i mi fynd gyntaf, Sara. (*gadael*)
18. ..... eich dwylo ar eich pen. (*rhoi*)
19. ..... dy ddiod wrth y ford. (*yfed*)
20. ..... wrth Daniel sut y cefaist ti'r ateb, Sam. (*egluro*)

Rhaid

- Rhaid i fi fynd
- Rhaid i ti wrando
- Rhaid iddo fe ddysgu
- Rhaid iddi hi gysgu
- Rhaid i ni fwyta
- Rhaid i chi ddarllen
- Rhaid iddyn nhw fwynhau
- *Rhaid i Nia a Huw gofio

i fi

i ti

iddo fe

iddi hi

i ni

i chi

iddyn nhw

i Tom

Gorchymynion i'w hosgoi...

eisteddwch i lawr

llenwch y tabl mewn

sefwch i fyny

torrwch allan

ysgrifennwch i lawr

croeswch e mas / allan

trowch y golau bant

dewch lan i'r blaen

Cywirwch y gwallau

TASG!


Cerddwch yn dawel Rhian.	Rhaid iddych chi wrando, blant.	Peidiwch â agor y ffenest yn y dosbarth.	Paid â taflu sbwriel Wil!
Ysgrifennwch dy enw ar y llyfr.	Sefyll yn dawel tu ôl cadeiriau.	Dewch i mewn Rhys.	Eisteddwch a bwyta yn dawel.

Os oes amser...mewn grwpiau

Meddyliwch am orchmynion addas ar gyfer gwers benodol ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad penodol. Beth am un wnaethoch chi ei gweld yr wythnos diwethaf tra'n arsylwi?

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Adnoddau defnyddiol i athrawon cynradd



Gramadeg a chywirdeb iaith


Ffurfiau ysgrifennu





Profion Darllen Cenedlaethol

A mwy...





Tebyg i Ditectif Geiriau ond ar gyfer CA3.
(Bl6 yn sefyll yr un papur â Bl.7)

Gwaith Cartref

- Cynnig deg brawddeg yn yr amhersonol – gweler y ddogfen word ar ffeiliau Teams / Moodle